# SL(5)662 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheolau ar gosbau mewn perthynas â thorri Rheoliad (UE) 2016/2031 ynghylch mesurau diogelu rhag plâu planhigion, a Rheoliad (EU) 2017/625 ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud hynny trwy wneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil.

Bydd y sancsiynau sifil yn eistedd ochr yn ochr â sancsiynau troseddol presennol. Mae'r sancsiynau sifil yn cynnwys hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer a hysbysiadau stop, cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau ariannol penodedig, yn ogystal â'r gallu i dderbyn ymgymeriadau trydydd parti ac ymgymeriadau gorfodi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Nodwn y bydd cosbau sifil a delir o dan y Rheoliadau hyn yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nid oes angen gweithredu prif ddarpariaethau Rheoliadau'r UE uchod yn y Deyrnas Unedig oherwydd eu bod yn cael effaith uniongyrchol yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig tan ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth ddomestig (h.y. y Rheoliadau hyn) ategu Rheoliadau'r UE. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliadau'r UE.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020, bydd y Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r UE yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ac, felly, byddant yn parhau i fod yn gymwys i Gymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2020**